**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

**Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl.

.....................................

**2.50pm**
**Eitem 2 - Datganiad Busnes**

**Cytunwyd ar y datganiad busnes**

.....................................

***2.56pm***
***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.***

**Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2654 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Tachwedd 2005 ynghylch Gorchymyn drafft Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn drafft Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2005; a

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2005

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Tachwedd 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005; a

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005; a

iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Tachwedd 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 57; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y cynnig**

## 2.58pm

### *Cynnig i drafod y 4 eitem nesaf gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:*

### Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2005

**NDM2661 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant (2002) (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

**NDM2662 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno**

**ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Tachwedd 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2005 a**

**2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

........................................

## Eitem 5

## - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadau heb fod drwy Asiantaeth) (Cymru) 2005

**NDM2655 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadu heb fod drwy Asiantaeth) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
**O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49**
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2656 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005 ynghylch y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadu heb fod drwy Asiantaeth)(Cymru) 2005 drafft; a**

**2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mabwysiadu heb fod drwy Asiantaeth) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:**

**a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005; a**
**b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
**O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50**
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

.........................................

## Eitem 6

## - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadau gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005

**NDM2657 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
**O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50**
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2658 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005 ynghylch y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor)(Cymru) 2005 drafft a**

**2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:**

**a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005; a**
**b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2005**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
**O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50**
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

.....................................

## Eitem 7

## - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005

**NDM2659 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
**O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50**
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2660 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005 ynghylch y Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005 drafft a**

**2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:**

**a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2005; a**

**b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2005; acc) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
**O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50**
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**3.19pm**

**Eitem 8**

## - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**NDM2664 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**1. Yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfleusterau ysgol diogel a modern i'w cymunedau;**

**2. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog Addysg i gomisiynu asesiad llawn, manwl a chyfredol gywir o'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd wedi cronni mewn ysgolion, ac i gyflwyno'r asesiad hwnnw i'r pwyllgor pwnc Addysg erbyn 10 Gorffennaf 2006; a**

**3. Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i neilltuo'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion bach mewn un cynllun grant arbennig, er mwyn rhoi terfyn ar yr arfer o gyfrif cyllid ar gyfer ysgolion bach gyda chyllid y cytundeb llwyth gwaith a chynlluniau eraill, ac i gydnabod y cyfraniad addysgol a chymdeithasol y mae ysgolion bach yn ei wneud i'w cymuned.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59**
**Derbyniwyd y cynnig**

.....................................

**4.16pm**

**Eitem 9 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru**

**NDM2663 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Yn nodi cyhoeddi adroddiad blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru am y cyfnod 2004-05.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:**

**Yn gresynu bod rhai cartrefi plant yn dal i fethu â chyflawni ymrwymiadau statudol.**

**Gwelliant 1**
**O Blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54**
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:**

**Yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyllid digonol i'r sectorau cartrefi preswyl a nyrsio sydd wedi arwain at gau nifer o gartrefi.**

**Gwelliant 2**
**O Blaid 26; Ymatal 1; Yn erbyn 27; Cyfanswm 54**
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:**

**Yn llongyfarch Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar ei gwaith o amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.**

**Gwelliant 3**
**O Blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54**
**Derbyniwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig**

**Yn galw ar y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r prinder darpariaeth cartrefi gofal ar gyfer yr henoed a phobl eiddil eu meddwl, a'r diffygion yn y gwasanaethau iechyd meddwl ar**

**gyfer plant a'r glasoed.**

**Gwelliant 4**
**O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 54**
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig, wedi'i ddiwygio**

**NDM2663 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Yn nodi cyhoeddi adroddiad blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru am y cyfnod 2004-05.**

**Yn gresynu bod rhai cartrefi plant yn dal i fethu â chyflawni ymrwymiadau statudol.**

**Yn llongyfarch Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar ei gwaith o amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.**

**O Blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54**
**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

**........................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.13pm**

**........................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 9 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

Tachwedd 08, 2005

Document(s)

LD5075 - Adroddiad Gan Y Pwyllgor Iechyd A Gwasanaethau Cymdeithasol Mesur Seneddol Plant A Mabwysiadu
LD5076 - Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005
LD5077 - Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005
LD5078 - The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2005 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD5079 - The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2005 Explanatory Memorandum - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD5080 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005
LD5081 - The Food Labelling (Amendment) (Wales) (No. 2) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD5082 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2005
LD5083 - The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD5084 - Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005
LD5085 - Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005

Tachwedd 07, 2005

Document(s)

LD5072 - Cyngor Cefn Gwlad Cymru Adroddiad Blynyddol 2004-2005
LD5073 - Education (Recognised Bodies) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Chopi Cymraeg Ar Gael
LD5074 - School Councils (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Chopi Cymraeg Ar Gael